

Amgylchedd Lleol Cymru yn Rhydd o GM

Gorffennaf 2003

Awdurdodau Lleol Cymru Yn Rhydd-o-GM

Crynodeb

- Mae Undeb Amaethwyr Cymru, Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched – Cymru, GM Free Cymru a Chyfeillion y Ddaear Cymru wedi ymgynghreirio ac yn gofyn i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i gymryd camau i ddod yn ardaloedd rhydd-o-GM.
- Ceir tystiolaeth wyddonol y bydd tyfu cnydau GM yn peri bygythiad i'r amgylchedd naturiol ac y bydd yn arwain at stacio gennynau, a chreu chwyn arbennig.
- Mae cnydau GM yn fygythiad difrifol i ffermio organig a ffermio nad yw'n GM; fel y mae hi ar hyn o bryd, ni fydd gan ffermwyr organig a ffermwyr sydd â'u cnydau rhydd-o-GM wedi eu llygru gan gnydau GM yr hawl i iawndal ariannol.
- Mae'r Gymdeithas Feddygol Brydeinig wedi lleisio pryderon ynglín ag effeithiau posibl organebau GM ar iechyd.
- Gall Awdurdodau Lleol gyhoeddi eu hardaloedd yn rhydd-o-GM a sicrhau nad oes cnydau GM yn cael eu tyfu ar dir y maent hwy yn ei reoli. Gallant hefyd fabwysiadu polisi rhydd-o-GM ar gyfer yr holl nwyddau a gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.
- Yn ogystal, mae ymgynghorwyr cyfreithiol i Gyfeillion y Ddaear yn ystyried y gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r Gyfarwyddeb Gollyngiad Bwriadol Ewropeaidd (2001/18/EC) i wneud cais i rwystro cnydau GM rhag cael eu tyfu yn eu hardal hwy.

Cefndir

Disgwylir i'r Llywodraeth benderfynu yn hwyrach eleni os y dylid caniatáu i gnydau GM gael eu tyfu'n fasnachol led led y DU ai peidio. Pe caniateid cymeradwyaeth o'r fath, byddai'n arwain at heintiad GM pellgyrhaeddol o'n bwydydd, ein cnydau a'n hamgylchedd, a byddai'n diddymu hawl pobl i ddewis bwydydd rhydd-o-GM. Mae Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol yn parhau i ddefnyddio'r dull mwyaf cyfyngiadol yn unol â deddfwriaeth yr UE.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae Undeb Amaethwyr Cymru, Ffederasiwn Genedlaethol Sefydliad y Merched – Cymru, GM-Free Cymru, a Chyfeillion y Ddaear Cymru yn gwahodd pob Awdurdod Unedol yng Nghymru i gymryd camau i ddod yn ardaloedd rhydd-o-GM.

Cefnogir ein ymgynghreiriad gan Ferched y Wawr, Y Grëp Strategaeth Organig, Cymdeithas y Pridd, Cymdeithas Gwenynwyr Cymru, Cymdeithas y Gwartheg Duon Cymreig, Ecocentre Gorllewin Cymru a'r Urdd.

Rhesymeg dros Ardaloedd Rhydd-o-GM

Mae creu ardaloedd rhydd-o-GM yn elfen hanfodol yn natblygiad economïau bwyd lleol cryf a sector amaeth gynaliadwy. Ceir rhesymau amrywiol dros wrthod cyflwyniad masnachol cnydau GM, a dyma rai o'r pwysicaf :

- Mae tyfu cnydau GM yn debygol iawn o effeithio ar yr amgylchfyd a'r bywyd gwyllt lleol. Mae stacio genynnau, sy'n arwain at greu "chwyn arbennig", yn bryder gwirioneddol. Er
enghraifft, datgelodd astudiaeth eang a gomisiynwyd gan Natur Seisnig cnydau GM rêp had olew goddefgar i chwynladdwyr yng Nghanada (adroddiad ymchwil Natur Seisnig rhif 443) y gall genynnau o amrywiadau GM ar wahân gynyddu mewn planhigion sy'n tyfu o hadau a ollyngwyd adeg cynaeafu (planhigion gwirfoddol). Yng Nghanada mae'r planhigion hyn bellach yn wrthsafol i nifer o chwynladdwyr a ddefnyddir yn helaeth ac maent felly ar fin dod yn chwyn poendod.

- Cynlluniodd y Cynulliad Cenedlaethol yn ddiweddar i gynyddu cefnogaeth i ffermio organig. Mae cnydau GM yn fygythiad difrifol i ffermio organig. Wrth i'r nifer o ffermydd organig gynyddu, mae'n annirnadwy y gallai cnwd GM gael ei roi rhyngddynt heb iddo'u llygru. Fel y mae pethau, nid oes gan ffermwyr a effeithir arnynt yr hawl i iawndal.

- Nid oes unrhyw orfodaeth ar gwmnïau biotechnoleg i lanhau'r amgylchfyd lleol pe darganfyddir nad yw cnwd neu fwyd GM yn saff. Gallai awdurdodau lleol ddarganfod bod ganddynt hwy y cyfrifoldeb o ddelio â sefyllfaoedd o'r fath.

- Ychydig yn unig o brofion gwenwyneg sydd wedi eu cynnal, er gwaetha'r ffaith i'r Cenhedloedd Unedig a'r Gymdeithas Feddygol Brydeinig (BMA) alw am brofion gwenwyneg ac alergedd gofalus cyn i organebau GM gael eu rhyddhau. Yn Nhachwedd 2002 mynegodd y BMA : "Nid oes ymchwiliad cadarn a thrylwyr wedi ei gynnal eto i effeithiau niweidiol posibl bwydydd GM ar iechyd pobl. Ar sail yr egwyddor rhagofalus, ni ddylid caniatáu parhad profion ar ffermydd." Ceir hefyd mater gwrthsafiad antibiotig, ac yn y cyd-destun hwn daeth y BMA i'r casgliad : "Mae 'marcwyr' gwrthsafiad antibiotig yn cynorthwyo i adnabod planhigion GM a cheir tystiolaeth y gallai'r genynnau hyn gael eu trosglwyddol i blanhigion rhydd-o-GM. Ceir posibiliad cryf y gallai marcwyr gwrthsafiad antibiotig symud drwy'r gadwyn fwyd, o bosibl i mewn i organebau pathogenig ac achosi afiechydon dynol."

- Fe wrthododd y cyhoedd gnydau a bwydydd GM yn llethol. Yn ôl arolwg diweddar gan MORI (Chwefror 2003), mae 56% o boblogaeth Prydain yn gwrthwynebu bwydydd GM mewn cymhariaeth ag ond 14% sy'n eu cefnogi. Dangosodd arolwg NOP yn Hydref 2002 nad oedd 57% am i'r Llywodraeth ganiatáu i gnydau GM gael eu tyfu'n fasnachol led led y DU. Yn ôl arolwg yn 2001, mae 94% o bobl Ewrop eisiau'r hawl i ddewis a ddylid bwyta bwydydd GM a dyw 71% ddim am ei fwyta o gwbl (Guardian, 2 Gorffennaf 2002).

Mynegodd Siôn Aron o UAC, "Mae'r manteision i Gymru o aros yn rhydd-o-GM yn amlwg. Mae'r cyhoedd, ar y cyfan, yn amheus o dechnoleg GM a byddai'n well ganddynt fwyta bwydydd rhydd-o-GM. Gallai Cymru fanteisio o ran cyhoeddusrwydd drwy barhau'n rhydd-o-GM, ond ni fyddai modd gwneud hynny trwy ddefnyddio cynnyrch GM."

Rôl Awdurdodau Lleol

Galwn ar awdurdodau lleol i gymryd camau i warchod eu hardaloedd rhag cnydau GM, a chefnogi o ganlyniad gynhyrchiad bwydydd organig a chynaliadwy.

Pan gyhoedda awdurdod lleol ei fwriad i fod yn rhydd-o-GM mae rhai mesurau pendant y gall eu cymryd er mwyn cynorthwyo i wireddu'r dymuniad hwnnw. Mae'r rhain yn cynnwys

sicrhau bod y gwasanaethau y maent yn eu darparu, megis prydau ysgol ac arlwyo yn rhydd o gynhwysion GM, a sicrhau nad yw unrhyw dir y mae ganddynt reolaeth drosto yn cael ei ddefnyddio i dyfu cnydau GM.

Y Fframwaith Gyfreithiol

Yn ogystal â chyhoeddi bod eu hardaloedd yn rhydd-o-GM, ac arwahân i hynny, mae gan awdurdodau lleol declyn cyfreithiol y gallant ei ddefnyddio i'w cynorthwyo i wireddu eu dymuniad o fod yn rhydd-o-GM - Erthygl 19 o'r Gyfarwyddeb Rhyddhau Bwriadol (Cyfarwyddeb 2001/18/EC).

Yn ôl ymgynghorwyr cyfreithiol Cyfeillion y Ddaear, gall awdurdodau lleol ddefnyddio Erthygl 19 (3) (c) i ofyn i'r Ysgrifenydd Gwladol a'r Cynulliad Cenedlaethol i ganfod esgusodiad "ardal ddaearyddol" o gnydau GM penodol. Er na ellir defnyddio'r Erthygl hon i ennill amddiffyniad cynhwysfawr yn erbyn pob cnwd GM yn y dyfodol, gellir ei ddefnyddio ar sail achos-wrth-achos bob tro y gwneir gais am gydsyniad marchnata i'r Comisiwn.

Darpariaethau Erthygl 19, Cyfarwyddeb Gollyngiad Bwriadol

Mae Erthygl 19 (1) y Gyfarwyddeb yn darparu y gall GMO gael ei ddefnyddio ond "cyn belled â bod ... yr amgylcheddau a'r/neu'r ardaloedd daearyddol yn amodedig yn yr amodau hyn wedi eu glynu atynt yn ofalus".

Mae Erthygl 19 (3) (c) yn gofyn bod yn rhaid i unrhyw gydsyniad Rhan C "[ym mhob achos, nodi'n fanwl]...amodau ar gyfer gwarchod ecosystemau/amgylcheddau ac/neu ardaloedd daearyddol penodol".

Defnyddio Erthygl 19 - yr hyn y gall awdurdodau lleol ei wneud

Mae pob math o gnwd GM angen ei Gydsyniad (marchnata) Rhan C ei hun. Bob tro y gwneir cais Cydsynio Rhan C, gall yr Ysgrifennydd Gwladol wrthwynebu caniatáu'r cydsyniad neu gall ddadlau, pe caniateir y cydsyniad, y dylai fod yn rhwym wrth amodau penodedig. Mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa i archwilio pob cydsyniad Rhan C o dan sylw ac i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol i ganfod amddiffyniad i'w hardal ddaearyddol benodol hwy yn erbyn y cydsyniad marchnata arfaethedig i'r cnwd hwnnw.

Dylai awdurdodau lleol yng Nghymru ysgrifennu hefyd at Weinidog Amaeth y Cynulliad gan taw'r Cynulliad Cenedlaethol yw'r "awdurdod cymwys" sy'n delio â gollyngiadau bwriadol o GM yng Nghymru, a bydd ganddo rôl sylweddol felly wrth gyflwyno gwrthwynebiadau i'r Comisiwn Ewropeaidd.

Yn olaf, credwn y dylai'r awdurdod lleol ysgrifennu hefyd yn uniongyrchol at y Comisiwn ynglín â phob cydsyniad Rhan C arfaethedig yn ystod y cyfnod sylwadau 30-niwrnod, a sicrhau felly bod sylwadau'n cyrraedd y rhai sy'n penderfynu ar lefel y Comisiwn. Dylai ymatebion i'r Comisiwn gael eu gwneud ar ffurf e-bost drwy we-fan y Joint Research Council, e-bost i gmoinfo-comments@jrc.it. Gwefan ar http://gmoinfo.jrc.it/partc_browse.asp.

Caiff y ddadl dros ganfod “esgusodiad daearyddol” ar gyfer ardal ei chryfhau pan fo’r rhesymau dros chwilio am esgusodiad yn berthnasol i’r amgylchedd neu iechyd pobl, yn enwedig pan fônt yn adlewyrchu cymeriad neu bryderon penodol yr ardal honno.

Gall pryderon lleol arbennig o’r fath gynnwys :

- Y swm o dir o dan reolaeth organig
- Nifer a maint cynefinoedd bywyd gwyllt dynodedig
- Y nifer o wenynwyr
- Presenoldeb perthnasau gwyllt i gnydau GM
- Y nifer o gwmnïau bwyd sy’n gysylltiedig â chynhyrchiad bwyd lleol a gwerth ychwanegol
- Termau unrhyw gynlluniau cynaliadwyedd neu gymunedol lleol ac amcanion unrhyw gynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol
- Parciau Cenedlaethol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu ardaloedd eraill o dan amddiffyniad arbennig
- Gwerth amgylchedd naturiol ac amaethyddiaeth organig yr ardal i’r diwydiant twristiaeth lleol
- Bodolaeth rhywogaeth brin mewn unrhyw gynefin
- Nifer a hyd cyrsiau dër o safon
- Maint y defnydd o ddër daear

Mae Cyfeillion y Ddaear ar hyn o bryd yn cyhyrchu gwybodaeth amgylcheddol a fydd yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflwyno’u hachos am “esgusodiadau daearyddol”. Cysylltwch â Julian Rosser yn Nghyfeillion y Ddaear Cymru am fwy o wybodaeth.

Ceisiodd rhai ddadlau nad oes gan awdurdodau lleol (yn gyffredinol) y pëer i gyhoeddi eu hardal yn Rhydd-o-GM nac i ofyn i’r Ysgrifenydd Gwladol amddiffyn eu hardal. Mae Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi pwerau eang iawn i awdurdodau lleol i wneud unrhywbeth y maent yn ei ystyried a fyddai’n hybu neu wella ffyniant amgylcheddol eu hardal. Gallai datganiad statws Rhydd-o-GM ddisgyn i’r categori hwn. Yn ogystal, mae’r Llysoedd yn cydnabod fod gan awdurdodau lleol yr hawl i ystyried ystyriaethau moesegol pan yn gwneud penderfyniadau (yr achos mwyaf hysbys yn y cyd-destun hwn yw penderfyniad gan y Llys Apêl yn ymwneud â phenderfyniad awdurdod lleol i wahardd hela ceirw ar ei dir).

Mae awdurdodau lleol a ganiatáodd ddadansoddiad rhydd-o-GM yn cynnwys Sir y Fflint, Sir Benfro, Cernyw, De Swydd Gaerloyw, Dyfnaint, Dorset, Swydd Gaerhirfryn, Penwith a Gorllewin Dorset (er nad yw cynnigion pob un o’r awdurdodau hyn yn cyfeirio at Erthygl 19 o’r Gyfarwyddeb Gollyngiad Bwriadol).

Amgaewn Gynnig Drafft, a fydd o ddefnydd i chi wrth ystyried a mabwysiadu polisi ar y mater hwn. Pe bai angen unrhyw gymorth neu gyngor arnoch ar y mater hwn, cysylltwch â Julian Rosser.

Mae tîm cyfreithiol Cyfeillion y Ddaear yn hapus i gynorthwyo unrhyw gynghorwyr wrth ddrafftio geiriad addas ar gyfer cynnig Rhydd-o-GM ac i gynnig cyngor ar unrhyw lythyron at y Comisiwn Ewropeaidd, DEFRA a’r Cynulliad Cenedlaethol.

Dadansoddiad Drafft ar gyfer Awdurdodau Lleol

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod :

- Addasu genynnol ar gyfer planhigion cnwd yn gangen newydd o wyddoniaeth a thechnoleg.
- Trafodaethau gwyddonol yn cael eu cynnal o hyd ynglín â diogelwch cnydau GM.
- Tyfu masnachol o gnydau GM yn cyflwyno problemau cyfreithiol, economaidd, cymdeithasol a moesegol na aed i'r afael â hwy yn iawn eto.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi felly y bydd Sir/Bwrdeistref/Dinas [...] yn cael ei gadw, cyn belled a'i bo'n bosibl, yn rhydd o gnydau GM a bwydydd GM. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn cydnabod bod materion o bryder arbennig i bobl... ac o bwysigrwydd penodol er mwyn gwarchod amgylchedd [...]. Mae'r rhain yn cynnwys :

[Mewnosodwch ardaloedd penodol o bryder sy'n berthnasol i'ch ardal chi - gweler tudalenau 3-4].

Mae'r Cyngor felly'n ymrwymo :

1. i sicrhau nad oes unrhyw gnydau GM yn cael eu tyfu ar dir y mae ganddo reolaeth trosto;
2. i fabwysiadu polisi rhydd-o-GM ar gyfer yr holl gynnyrch a gwasanaethau y mae'r Cyngor yn gyrifol amdanynt;
3. i ystyried, yng nghyd-destun pob cais Marchnata Rhan C (o dan Gyfarwyddeb 2001/18/EC), effeithiau anffafriol posibl y Cnwd GM arfaethedig ar [enw'r Awdurdod] a wedi gwneud hynny i wneud cais (lle bo'n briodol) i'r Comiswn Ewropeaidd (yn uniongyrchol a thrwy'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Gweinidog Amaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol) i esgusodi ardal ddaearyddol [...] o gwmpasiad Cydsyniad o'r fath o dan Erthygl. 19(3)(c), er mwyn amddiffyn amgylchedd unigryw [...] ac i warchod uniondeb [...] fel ardal rhydd-o-GM.

Gorffennaf 2003

Cyhoeddwd gan

Undeb Amaethwyr Cymru
Llys Amaeth
Plas Gogerddan
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BT
Ffôn: 01790 820820
Ffacs: 01790 820821
Ebost: headoffice@fuw.org.uk
Gwefan: www.fuw.org.uk

GM Free Cymru
Dyffryn Dwarch
Abermawr
Mathry
Sir Benfro
SA62 5HL
Ffôn: 01348 837614
Ebost: support@gmfreecymru.co.uk
Gwefan: www.gmfreecymru.co.uk

Cyfeillion y Ddaear Cymru
33 Arced y Castell
Caerdydd
CF10 1BY
Ffôn: 029 20229577
Ffacs: 029 20228775
Ebost: cymru@foe.co.uk
Gwefan: www.cyddcymru.co.uk

Ffederasiwn Genedlaethol Sefydliad y Merched - Cymru
19 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9DN
Ffôn: 029 20221712
Ffacs: 029 2038 7236
Ebost: walesoffice@nfwi-wales.org.uk
Gwefan: www.womens-institute.org.uk